## Gŵyl Flodau Eglwys Sant Gwyddelan 2016



Cymdeithas Hanes Ddraig Dolwyddelan




Capel Moriah

# Plas Penaeldroch Manor



Dywed Carrie a Mike . . .

Ers i ni ysgrifennu'r tro diwethaf, rydym ni wedi bod yn brysur yn trawsnewid y bar a'r hen seler gwrw yn gegin fasnachol a bwyty trwyddedig newydd fydd yn gwerthu byrbrydau. Ac erbyn i chi ddarllen hyn, gobeithio y byddwn ni wedi agor ein drysau. *Os nad, byddwch yn amyneddgar efo ni, mi fyddwn ni'n agor cyn gynted â phosib!*

Rydym ni wrth ein boddau y bydd Jane Carus yn dod atom ni i goginio. Ar y cychwyn mi fyddwn ni'n gwerthu byrbrydau a diodydd gan ddatblygu gydag amser i weini brecwast a chinio poeth a brechdanau yn ystod y dydd, ynghyd â chacennau blasus Jane -

i'w bwyta yma i fynd efo chi. Mi fydd gennym ni lawer iawn o fwydydd, diodydd a chwrw Cymreig. Mae modd eistedd y tu mewn neu ar y teras sy'n edrych dros harddwch Dyffryn Lledr tuag at Foel Siabod ar y gorwel. Unwaith i ni agor byddwn yn cyhoeddi ein hamseroedd agor a'n bwydlenni yn llawn ar www.penaeldroch.co.uk ac ar ein tudalen Facebook.

Byddwn yn falch o glywed unrhyw sylwadau sydd gennych chi.

Byddwn yn rhoi'r gwaith atgyweirio o'r neilltu ym mis Medi wrth inni gael y bwyty ar ei draed, ac yn ailgychwyn arni ym mis Hydref gan ganolbwyntio ar ystafelloedd y gwesty fydd, gyda gobaith, yn barod erbyn diwedd haf 2017. Rydym ni hefyd yn gobeithio gorffen y gwaith o lunio a gosod llwybr labyrinth dros y gaeaf.

**Plas Penaeldroch**, Pont y Pant, Dolwyddelan LL25 0PJ

Ffôn: **01690 750316** Ebost: office@penaeldroch.co.uk

gwefan: www.penaeldroch.co.uk Facebook: Penaeldroch